



# YN ÔL TRAED EIN CYNDEIDIAU

Pan fyddwch yn dilyn y daith gerdded hon, gofalwch eich bod wedi paratōi yn addas trwy ddilyn y Cōd Cefn Gwlad a fydd yn eich helpu i ymweld yn ddiogel a chadw ein hamgylchedd a'n cymunedau mewn cof. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.naturalresources.wales/countrysidecode](http://www.naturalresources.wales/countrysidecode)



**CALON DDRAMATIG  
CYMRU**

Castell-nedd Port Talbot

[dramaticheart.wales](http://dramaticheart.wales)



## LLWYBR MYNACHOD A'R PULPUD

**Man cychwyn:** Parc Gwledig Margam, defnyddiwyd y llwybr nesaf at y Ganolfan Ymwelwyr, sy'n mynd heibio'r adeilad bach cerrig

**Hyd:** 4.5 milltir

**Amser:** 1.5 - 2 awr

**Parcio:** Maes Parcio Parc Gwledig Margam

**Bwyd a Lluniaeth:** Nifer o ddewisiadau lluniaeth.

Mae toiledau cyhoeddus ar gael ym Mharc Gwledig Margam.

*Cynhelir teithiau hanesyddol yn rheolaidd ym Mharc Gwledig Margam. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar wefan Parc Gwledig Margam. Mae teithiau hefyd yn Eglwys hanesyddol yr Abaty.*

*Os hoffech gael golwg agosach ar nodweddion hanesyddol Parc Margam neu fwynhau rhai o'r gweithgareddau antur neu deithiau cerdded eraill sydd ar gael yn y parc, mae rhagor o fanylion ar gael yn: [www.margamcountrypark.co.uk](http://www.margamcountrypark.co.uk)*

Bydd y daith gerdded hon yn mynd â chi ar hyd llethrau Mynydd Margam sy'n gefnlen i safle hanesyddol Parc Gwledig Margam. Cewch weld graddfa'r dirwedd hanesyddol hon yn ei holl ogoniant wrth gerdded yn ôl traed Mynachod Sistersaidd, ffermwr a phorthmyn ar y daith gerdded i Gapel Mair ac edrych i lawr ar yr ystâd a fu ar un adeg yn eiddo i deulu Talbot, rhai o sylfaenwyr Port Talbot.

Mae Parc Gwledig Margam yn gyfuriog o hanes gyda nodweddion sy'n dyddio'n ôl i oes yr haearn. Yn y 12fed ganrif roedd Margam yn gartref i urdd Mynachod Sistersaidd a adeiladodd Abaty mawreddog Margam. Mae'r adfeilion trawiadol ar dir y parc, ger Eglwys hanesyddol yr Abaty sy'n dal i fod yn addoldy ac yn fan gorffwys teulu dylanwadol Talbot a drodd y dref yn bwerdy diwydiannol.

Christopher Rice Mansel Talbot oedd yn gyfrifol am adeiladu'r plasty (a elwir yn Gastell Margam) yn y 18fed ganrif yn y dull Gothig Tuduraidd. Mae'r castell, sydd heb ei ddodrefnu, yn adeilad rhestredig gradd 1 ac yn cynnwys nodweddion trawiadol fel y cyntedd helaeth gyda'r grisiau mawreddog a'r tŵr wythonglog.





# Y LLWYBR

Mae'r daith hon yn dechrau ar y prif llwybr i'r dde o'r castell sy'n mynd heibio llethrau coediog y fryngaer o Oes yr Haearn. Dilynwch y llwybr am 400 metr gan fynd rhwng yr adeilad cerrig ar y dde a sylfaen yr anheddiad Celtaidd ar y chwith. Fe welwch ffawydden fawr ar y ffordd. Mae'r llwybr yn rhannu'n bedwar yma ac mae'r llwybr (porffor) yn gostwng i'r chwith. Mae coed ffawydd, ynn, derw, planwydd a gwern ar hyd y llwybr. Cyn pen dim byddwch yn cyrraedd pont gerrig dros y nant wrth iddi ddisgyn i'r pwll. Dilynwch y llwybr trwy'r gât siglen fetel heibio'r ffawydden goprog ac ar hyd glan y pwll pysgod **1**.

Trowch i'r dde i fyny ffordd darnac serth ychydig y tu hwnt i'r felin; byddwch yn dilyn llethr coediog. Ger y tro yn y ffordd, mae golygfa odidog i'r dde, dros Gwm Philip, Coedwig Margam, y brynau coediog a'r gweundir rhedynog. Mae'r ffordd hon yn arwain at Fferm Crugyllt, ond mae ein trywydd

ni yn mynd i'r chwith ar hyd llwybr sy'n croesi'r llethr i Gapel Mair, yr hen gapel. Dilynwch y llwybr wrth iddo ymagor ger y capel **2**, am olygfa fendigedig!

Mae Capel Mair mewn llecyn amlwg ar ben y bryn uwchben Eglwys yr Abaty a Thir yr Orendy. O'r fan hon mae disgynfa serth yn igam-ogamu i lawr at y Pwll Pysgod. Mae'r llwybr i lawr o'r capel yn serth felly pwyll piau hi. Ewch ymlaen heibio'r Pwll Pysgod yn ôl i'r Parc, trwy'r gât siglen gan ddilyn yr un llwybr ag o'r blaen. Unwaith eto, byddwch yn cerdded o amgylch seiliau'r fryngaer ac yn mynd heibio'r rhyd ar eich siwrne yn ôl i'r man lle mae'r llwybr yn hollti.



# Y LLWYBR

O'r fan hon, cymerwch yr ail lwybr (glas) ar y chwith sy'n mynd i fyny'r bryn. Mae hwn yn arw ac yn serth a byddwch yn cerdded ar dywodfaen solet mewn mannau. Mae'r llwybr yn mynd ymlaen i fyny'r bryn tuag at olygfan y 'pulpud' **3** a'r tu hwnt iddi, allan o'r Parc i gyfeiriad fferm Ton-mawr. Gyferbyn â'r 'Pulpud', mae'n bosibl canfod safle anheddle bach o'r enw Lodge-isaf **4**, llety'r cipar. Buasai hwn yn gysylltiedig â'r hyddgre **5**.

O'r Pulpud, mae'r llwybr yn mynd tuag at wal derfyn y Parc. Mae'n disgyn i'r dde lle mae'n cwrdd â llwybr cyfeirbwynt gwyrdd Cwm Philip. Mae'r ddau lwybr yn dilyn y cwm bach i lawr tuag at fferm Graig Goch. Wrth ddisgyn i'r cwm bach hyfryd hwn, sylwch ar y fynedfa i hen lofa ar gornel y tro sydyn. Mae hon yn deillio o gyfnod y mynachod fwy na thebyg, ac yn arwain at wythïen lo yn ochr y bryn.

Ar waelod y cwm, mae'r trywydd yn mynd i'r dde gan ymuno â llwybr lletach sy'n arwain yn ôl i'r Parc. Os edrychwch i'r dde ar waelod y gefnen dywodfaen, fe welwch hafn hen chwarel. Mae'n bosibl bod y garreg a ddefnyddiwyd i adeiladu'r castell wedi dod o'r fan hon. Ymhen ychydig, bydd eich llwybr yn cwrdd â llwybr cyfeirbwynt coch Craig-y-Lodge, ac mae'r ddau yn croesi'r tir agored ar hyd llwybr i'r chwith. Mae'r llwybr hwn yn ymuno â phrif lôn y parc ger Llyn Furzemill. Ewch i'r dde heibio'r Llyn Newydd i orffen y daith ger y Ganolfan Ymwelwyr lle mae croeso i chi archwilio Castell Margam a'r adfeillion mynachaid.

2



# MANNAU DIDDOROL

## 1 Y Pwll Pysgod

Y pwll pysgod oedd canolbwynt y gerddi Talbot oedd wedi'u tirlunio. Cododd argae ar y nant, a fu'n gyrru melin y mynachod ar un adeg, a chreu paradwys fotanegol ar ei chyron. Bellach, mae'n llecyn hyfryd i eistedd ac ymlacio, bwydo'r hwyaid a gwyllo'r adar gwylt sy'n ymweld â'r parc yn nofio'n ddiymdrech ar wyneb y dŵr.

## 2 Capel Mair

Adeiladwyd Capel Mair tua 1300 gan y mynachod Sistersaidd er budd eu cymuned leol er mwyn iddynt gael lle i addoli. Nid oedd ffermwyr na lleygwyr lleol yn cael mynd i mewn i Abaty mawreddog Margam a ddefnyddid gan yr Urdd Sistersaidd yn unig. Enwyd yr eglwys ar ôl y Santes Fair ac am gyfnod, roedd yn gartref i gerftun o'r Forwyn Fair a oedd yn gyrchfan i lawer o bererion. Gwelir rhai arwyddion pensaernïol o'r 1500au yn y capel, sy'n adfail bellach, ond gwaith ailadeiladu sydd i gyfrif am hyn fwy na thebyg. Mae'r lleoliad yn gyfle hyfryd i archwilio a mwynhau'r olygfâ ysblennydd o Gastell Margam a thirwedd hanesyddol y Parc Gwledig.

## Llwybr Arfordir Cymru

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn arfordir Cymru o'r naill ben i'r llall. Gyda chyfeirbwyntiau glas a melyn yn dangos y ffordd, mae'r llwybr yn daith ddarganfod. Ym Mhort Talbot mae'r llwybr yn symud ychydig ymhellach o'r arfordir i lecyn uchel sy'n cynnig golygfeydd agored o'r arfordir dramatig. O'r llecyn manteisiol hwn uwchben Parc Gwledig Margam, gallwch weld traffig prysur yr M4 yn croesi'r ardal wledig, dociau'r gwaith dur a thref Port Talbot sy'n cyrraedd y môr yn Aberafan. Trowch i'r cyfeiriad arall i wynebu murmur tawel, heddychlon byd natur yn y caeau a'r coed o'ch cwmpas.

## 3 Y Pulpud

Mae'r Pulpud yn cynnig golygfeydd godidog dros dir isel y Parc a golygfeydd draw i Ddyfnaint, Gwlad yr Haf, Penrhyn Gŵyr ac Arfordir Treffadaeth Morgannwg. O'ch blaen, mae gwaith dur Port Talbot yn codi fel cawr o'r twyni twmpathog eang sy'n amgylchynu cronfa ddŵr Eglwys Nunydd a dyfroedd llai Pwll Cynffig. Safle saethu oedd hwn yn wreiddiol ac mae'r strwythur crwn hwn â'i waliau cerrig yn edrych allan ar lethrau Craig-y-

Lodge. Mae'n debygol y byddai rhai o westeion enwog C.R.M. Talbot wedi cael eu hebrwng yma i saethu ffesantod. Cafodd y garreg fawr yma ei dadorchuddio gan y Tywysog Charles i ddathlu Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru.

## 4 Lodge-isaf

Gyferbyn â'r 'Pulpud' mae'n bosib canfod safle anheddle bach Lodge-isaf, sef llety'r cipar. Buasai'r llety hwn yn gysylltiedig â'r hyddgre a gafodd ei chyfyngu, ar un adeg, i diroedd uwch y Parc.

## 5 Yr Hyddgre

Heddiw, mae'r hyddgre yn crwydro'n rhydd ar hyd y parcdir 500 erw. Mae modd ei dyddio'n ôl i'r oes Normanaidd, er bod yna gyfeiriadau at geirw a oedd yn yr ardal yn oes y goresgyniad Rhufeinig. Danasod (ceirw brith) yn unig oedd yn yr hyddgre yn wreiddiol ond ychwanegwyd ati ac mae bellach yn cynnwys ceirw coch a'r ceirw Pere David sydd mewn perygl.

